

# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# Cynllun Busnes Diwygiedig

# 2025 -2028

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru | 3 |
| Llywodraethu | 4 |
| Rheoli Risg | 6 |
| Amcanion | 7 |
| Credoau | 8 |
| Polisïau | 9 |
| Cynllun Gwaith | 10 |
| Cynllun Hyfforddi | 12 |
| Cyllideb | 13 |
| Buddsoddiadau a Pherfformiad | 14 |
| Manylion Cyswllt | 16 |

# Cyflwyniad

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ('y Bartneriaeth'), sy'n cynnwys manylion ynghylch blaenoriaethau'r Bartneriaeth a'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn 2025/26, 2026/27 a 2027/28. Caiff y cynllun busnes ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth yn y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes
- Crynhoi Amcanion Buddsoddi a Pherfformiad y Bartneriaeth

# Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, ac mae'n un o wyth cronfa gyfun yn genedlaethol. Mae gennym hanes hir a llewyrchus o gydweithio, ac wedi bod yn gwneud hynny ers cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'i gynlluniau ar gyfer cyfuno cronfeydd. Rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth unigryw fel Cronfa Gyfun – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli Cymru gyfan. Oherwydd ein hatebolrwydd democrataidd rydym yn cynnig y gorau o'r sector cyhoeddus o ran llywodraethu cryf a thryloywder.

Mae gennym ddull gweithredu sydd â'r nod o fod yn hyblyg a chyflawni gwerth am arian. Rydym wedi penodi Gweithredwr allanol i'r gronfa ac yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn manteisio ar arbenigwyr o'r radd flaenaf i gynorthwyo wrth weinyddu'r Gronfa Gyfun, ac mae'r rhain yn cynnwys Hyman Robertson a benodwyd yn Ymgynghorydd Trosolwg ar ran y Bartneriaeth. Y Gweithredwr yw Waystone Management (UK) Limited, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Russell Investments wrth ddarparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau a rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gennym weledigaeth gyffredin a chytundeb o ran sut fydd y weledigaeth honno'n cael ei chyflawni, a pha mor sydyn.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad "Addas ar gyfer y Dyfodol (Fit for the Future)" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu prosiect i archwilio a gweithredu'r gofynion llywodraethu a busnes er mwyn i'r Bartneriaeth gydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth, sef prosiect a elwir yn Brosiect yr Wyddfa (Project Snowdon).

Yr wyth cronfa CPLI (Awdurdodau Cyfansoddol) Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Cronfa Bensiwn Dyfed (Cyngor Sir Gâr)
- Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe (Cyngor Abertawe)
- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Cyngor Dinas Caerdydd)
- Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
- Cronfa Bensiwn Gwynedd (Cyngor Gwynedd)
- Cronfa Bensiwn Powys (Cyngor Sir Powys)
- Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)
- Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen)


# Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd yn ymdrechu i gael gwelliant parhaus ac i gydymffurfio gydag arfer orau'r diwydiant.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Chytundeb Rhyng-awdurdod (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhyng-awdurdod yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol. Yn unol â'i chred y dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, sydd wedi cael ei ddylunio i:

- Cyflawni ei hamcanion
- Bod yn hyblyg ac yn fodlon addasu
- Arddangos ei hymrwymiad i safonau llywodraethu o'r radd flaenaf
- Diwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid
- Meithrin cydweithrediad a chyfathrebu o fewn y Bartneriaeth
- Bod yn dryloyw
- Bod yn gost-effeithiol

Mae’r diagram a ganlyn yn dangos beth yw strategaeth lywodraethu'r Bartneriaeth:




Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd ar frig strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth. Hwy sy'n rheoli'r holl weithgareddau a gyflawnir gan y Bartneriaeth ac maent yn parhau yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cynllun Busnes, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith y Bartneriaeth, yn ogystal â'i chredoau a'i hamcanion. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwneud llawer â holl agweddau strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth, tra bod Cydbwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth, Cynrychiolydd aelod o'r cynllun a'r Gweithgor Swyddogion yn cynnwys cynrychiolwyr cynghorwyr a swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae'r Bartneriaeth yn credu y dylai fod yn agored a thryloyw yn ogystal ag ymgysylltu â'i rhan-ddeiliaid allweddol yn rheolaidd. Felly, mae'r Bartneriaeth yn sicrhau y gall y cyhoedd weld cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu drwy we-ddarllediad byw. Mae papurau'r cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd hefyd. Ar ben hynny, bydd Cadeiryddion y Byrddau Pensiynau Lleol yn cynnal cyfarfodydd ymgysylltu yn gyson er mwyn meithrin cyswllt â rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw ei holl ran-ddeiliaid, ac felly mae wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu, sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

| Dulliau ymgysylltu | Amlder |
|---|---|
| Cyfarfod Adolygu'r Berthynas Strategol | Dwywaith y flwyddyn |
| Ymgysylltiad â'r CBLl | Chwarterol |
| Galwadau/Cyfarfodydd Perfformiad Rheolwyr | Chwarterol |
| Digwyddiadau Hyfforddiant | Chwarterol |
| Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion | Chwarterol |
| Cyfarfodydd bob yn ail Wythnos | Bob pythefnos |
| Pwyllgorau Cronfa Bensiwn | Blynyddol |
| Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr | Blynyddol |
| Cyfathrebu ag Aelodau | Blynyddol |
| Ymgysylltu Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn | Dwywaith y flwyddyn |
| Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn | Parhaus |

# Rheoli Risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau, o'u gadael heb eu rheoli, all gyfyngu ar allu'r Bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion ac i weithredu er lles gorau ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth hefyd yn deall na ellir lleddfu rhai risgiau'n llwyr ac yn yr achosion hyn mae angen ymdrin â'r risg wrth ei reoli'n weithredol ac yn effeithiol.

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad y Bartneriaeth i lywodraethu da, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu strategaeth risg gadarn, eang a strwythuredig. Bydd y strategaeth hon yn cael ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell deilliannau i ran-ddeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

Mae strategaeth risg y Bartneriaeth yn ceisio adnabod a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau priodol a gweithdrefnau llywodraethu yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Cred y Bartneriaeth fod natur anwadal i'r risgiau hyn ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn sydyn ac yn ddirybudd. I adlewyrchu'r gred hon, mae Polisi Risg y Bartneriaeth wedi cael ei ddatblygu mewn modd lle gellir rhagweld risgiau ac ymdrin â hwy mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posib i'r Bartneriaeth a'i rhan-ddeiliaid.

I gyflawni ei hamcanion, mae angen i'r Bartneriaeth gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n ei rhoi mewn risg. Bydd y graddau y gall y Bartneriaeth gydbwyso'r risg a'r adenillion yn ddibynnol ar lwyddiant ei Bolisi Risg. Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol fod y Bartneriaeth yn deall y risgiau perthnasol ac yn ystyried sut ellir rheoli'r risgiau hyn.

Y risg mwyaf i weithrediad parhaus y Bartneriaeth yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Mae Cynllun Busnes y Bartneriaeth yn fodd ychwanegol i'r Bartneriaeth roi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n peri bygythiad materol i gyflawni ei hamcanion a'r camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn.

Yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn bydd y Bartneriaeth yn mynd ati i ddatblygu mecanweithiau, fframweithiau a phrosesau ar gyfer rheoli'r risgiau allweddol a ganlyn:

- Darpariaeth gwasanaeth a pherfformiad ei Gweithredwr
- Perfformiad parhaus rheolwyr buddsoddi
- Cadernid strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Risg sy'n gysylltiedig â Buddsoddiad Cyfrifol

Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol iawn o'r bygythiadau petai diogelwch seibr yn cael ei dorri a phwysigrwydd diogelwch data. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel Awdurdod Lletya PPC, fframwaith cadarn ar waith i sicrhau diogelwch ei rwydwaith a'i systemau gwybodaeth. Mae gan y Cyngor hefyd Gynllun Ymateb Digwyddiad Seibr manwl, sy'n amlinellu gweithdrefnau ar gyfer paratoi, nodi, cyfyngu ac ymateb i ddigwyddiadau seibr, sicrhau parhad busnes a chadw tystiolaeth. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddata aelodau unigol ar gyfer eu Cronfeydd Pensiwn CPLlL eu hunain.

# Amcanion

Mae'r Bartneriaeth yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cydnabod ei dyletswydd i sicrhau bod anghenion a gofynion yr holl ran-ddeiliad yn cael eu diwallu. Mae'r Bartneriaeth, trwy ymgynghoriad â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi llunio rhestr o brif amcanion a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyd-fuddsoddi sy'n galluogi i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (pan fo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion costau perthnasol i gronfeydd cyfranogol tra'n gwella neu'n cynnal a chadw perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd.
- Gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn i gael trosolwg o weithgarwch y cyd-fuddsoddi.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfun eraill i archwilio'r manteision y gall pob rhan-ddeilydd yng Nghymru elwa ohonynt wrth ddefnyddio datrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r deilliannau gorau i'w rhan-ddeiliaid allweddol; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn medru defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun.
- Ymwreiddio’r gwaith o gyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy, hirdymor yn y broses gwneud penderfyniadau, drwy ddyrannu cyfalaf, craffu parhaus ar reolwyr asedau ac arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n codi fel perchnogion asedau.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu cryfder yn deillio o'r credoau sy'n gyffredin rhyngddynt a'u gallu i gydweithio i gyflawni eu hamcanion cyffredin er lles holl ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

# Credoau


Mae Credoau'r Bartneriaeth yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol, maent fel a ganlyn:

- Rôl y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu llwyfan cyd-fuddsoddi fel cyfrwng i weithredu ddiddordebau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth
- Mae cydweithredu mewnol rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gall cydweithio allanol hefyd fod yn fanteisiol wrth ddarparu arbedion costau a gwell deilliannau i ran-ddeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ar y cyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn fodd cost-effeithiol o wella adnoddau, gallu ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau i'r rhan-ddeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesedd a datblygiad parhaus yn gymorth i'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol esblygu
- Bydd agwedd hyblyg at strwythur cyfun a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi i gronfa gyfun y Bartneriaeth addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid.


Mae credoau'r Bartneriaeth yn sylfaen i'r fframwaith llywodraethu ac maent wedi cael eu defnyddio i lywio pob un o weithgareddau'r Bartneriaeth a'i phenderfyniadau, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.

# Polisïau

Cred y Bartneriaeth y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. I gydnabod y gred hon, mae'r Bartneriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu strwythur a fframwaith llywodraethu cadarn a chyfres o bolisïau llywodraethu. Ym mhob achos, mae polisïau a gweithdrefnau'r Bartneriaeth wedi cael eu datblygu i un ai gyfrannu neu ychwanegu at weithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall pwysigrwydd llunio a chyfundrefnu ei pholisïau a'i gweithdrefnau. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol:




Isod, ceir rhestr o bolisïau allweddol, cofrestri a chynlluniau'r Bartneriaeth, a gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth:




Adolygir dogfennau'r Bartneriaeth hon yn rheolaidd, a bydd y Bartneriaeth yn cynnal asesiadau parhaus i bennu a oes gofyn am bolisïau, cofrestri neu gynlluniau ychwanegol. Mae'r polisïau'n chwarae rôl hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth ac maent wedi'u llunio gyda'r unig fwriad o ddarparu fframwaith sydd wedi'i gyfundrefnu fydd yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion mewn modd effeithiol a thryloyw.

# Cynllun Gwaith

Mae'r tabl isod yn dangos blaenoriaethau ac amcanion allweddol y mae'r PPC yn anelu at eu cwblhau dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun gwaith wedi'i rannu'n nifer o adrannau allweddol sydd oll yn hanfodol i lwyddiant parhaus PPC

- **Llywodraethu** - Mae'r Bartneriaeth o'r farn bod llywodraethu da yn arwain at well canlyniadau i'w rhanddeiliaid, felly bydd yn dal ati i ddatblygu ei fframwaith llywodraethu drwy gynnal adolygiadau parhaus o'i dogfennau llywodraethu a'i strwythur presennol.
- **Datblygiadau'r Rhaglen Fuddsoddi Barhaus** – Hyd yma mae'r Bartneriaeth wedi cyfuno tua 74% o'i hasedau ac mae nifer o Rhaglenni Fuddsoddi eraill yn y broses o gael eu datblygu. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod yr holl asedau addas yn cael eu cyfuno.
- **Gwasanaethau Gweithredwyr** - Mae'r Gweithredwr, ar y cyd â'r trydydd partïon a cyflogir ganddo ar ran y Bartneriaeth, yn hanfodol i weithgareddau parhaus y Bartneriaeth, felly mae darparu gwasanaeth y Gweithredwr a chyflenwyr trydydd parti eraill yn hanfodol.
- **Adrodd am Fuddsoddi** - Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod atebion buddsoddi presennol yn parhau yn optimal ac yn cyd-fynd â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol, gan hefyd gyflawni disgwyliadau dychwelyd buddsoddiad yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i gyflawni ei gofynion adrodd sy'n cwmpasu meysydd fel perfformiad buddsoddi, risg, gweithgareddau Stiwardiaeth, Buddsoddi Cyfrifol a'r Hinsawdd, a bydd yn datblygu adroddiadau pellach, yn ôl yr angen.
- **Cyfathrebu a Hyfforddiant** - Mae'r Bartneriaeth eisiau sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol a phartïon allanol yn ymwybodol o gynnydd y Bartneriaeth ac mae yn cyhoeddi nifer o adroddiadau a diweddariadau i sicrhau ei bod yn cyfathrebu'r cynnydd i'r rhanddeiliaid yn rhagweithiol. Gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth.
- **Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd** - Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod adnoddau annigonol yn peri risg arwyddocaol i'w gallu i ddarparu fframwaith buddsoddiadau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'w rhanddeiliaid allweddol, a bydd y Bartneriaeth yn ymgymryd â sawl adolygiad i sicrhau bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

| Gwaith i'w gwblhau | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 | 2027 - 2028 |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Proses gaffael darparwyr Gwasanaethau Cyfreithiol | ✔ | | |
| Cyflawni Prosiect yr Wyddfa | ✔ | ✔ | |
| Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad | ✔ | ✔ | ✔ |
| **Datblygiadau'r Rhaglen Fuddsoddi Barhaus** | | | |
| Lansio'r rhaglen buddsoddi eiddo tirol | ✔ | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ystyried cyfleoedd a gofynion PCC yn y DU, lleol / effaith | ✔ | ✔ | ✔ |
| Esblygiad Cronfeydd Ecwiti, Incwm Sefydlog a Goddefol cyfredol | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen | ✔ | ✔ | ✔ |
| **Gwasanaethau Gweithredwyr** | | | |
| Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa | ✔ | ✔ | ✔ |
| **Adrodd am Fuddsoddi** | | | |
| Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat | ✔ | | |
| Adroddiadau Cod Stiwardiaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Datblygu, gweithredu ac adrodd parhaus ar yr holl weithgareddau stiwardiaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD | ✔ | ✔ | ✔ |
| Adroddiadau sy'n gysylltiedig â natur / TNFD | ✔ | ✔ | ✔ |
| Cyfathrebu ac adrodd parhaus ar weithgarwch Buddsoddi Cyfrifol i'r holl randdeiliaid | ✔ | ✔ | ✔ |
| Adrodd parhaus ar fuddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd Is-gronfeydd | ✔ | ✔ | ✔ |
| Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd y Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol o ran safonau ESG ac uchelgeisiau hinsawdd i diwallu anghenion sy'n esblygu | ✔ | ✔ | ✔ ( |
| **Cyfathrebu a Hyfforddiant** | | | |
| Llunio Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol y Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Llunio Cynllun Hyfforddi Blynyddol y Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Llunio Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Llunio Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| **Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd** | | | |
| Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | ✔ | ✔ | ✔ |
| Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth | ✔ | ✔ | ✔ |
| Adolygu a Monitro ffioedd Gweithredwr / darparwyr allanol | ✔ | ✔ | ✔ |

# Cynllun Hyfforddi

Yr arfer orau yw i staff y Bartneriaeth gael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ynghylch:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- chyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth i ategu cynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar y lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth o ran cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth. Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol i ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Byrddau Pensiwn, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Mae pynciau hyfforddi PPC yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol PPC ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ('CBLl') a Gweithgor Swyddogion ('GS').

Gwybodaeth am Gynnyrch:

- Dosbarthiadau asedau Credyd Preifat a Seilwaith
- Buddsoddiadau Lleol / Effaith o fewn dosbarthiadau asedau Marchnadoedd Preifat

Stiwardiaeth:

- Pleidleisio ac Ymgysylltu
- Cod stiwardiaeth a gofynion adrodd

Buddsoddiad Cyfrifol (RI):

- Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol
- Senarios Hinsawdd a Dyletswydd Ymddiriedol

Ymgynghoriad Pwlio a Gofynion Rheoleiddio

- Ymgynghoriad Pwlio
- Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd

# Cyllideb

Mae'r tabl isod yn nodi cyllideb y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.

| | **Rhagolwg alldro 2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Awdurdod Lletya | 186 | 241 | 247 | 253 |
| Ymgynghorwyr Allanol | 1,270 | 1,376 | 1,288 | 1,288 |
| Prosiect yr Wyddfa (gweler isod) | 470 | 2,915 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| **CYFANSWM i'w ail-godi *** | **1,926** | **4,532** | **1,535** | **1,541** |
| | | | | |
| Gwasanaethau Gweithredwr | 39,922 | 46,110 | 50,721 | 55,793 |
| Dyranwr | 7,094 | 9,673 | 10,844 | 10,844 |
| **CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau **** | **47,016** | **55,783** | **61,565** | **66,637** |

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth  Awdurdod Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

### Cyllideb Project Snowdon 2025/26

Mae sefydlu Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (IMCo) y PPC yn cynnwys costau sefydlu a chostau rhedeg parhaus. Mae'r WPP wedi amcangyfrif cyllideb prosiect o oddeutu £2.9 miliwn* ar gyfer cyflawni'r prosiect, sy'n cwmpasu cynghorwyr cyfreithiol, cymorth cydymffurfio arbenigol, ymgynghorwyr buddsoddi, a rheolwyr prosiectau, yn ogystal â chostau cyflog personél IMCo a gyflogwyd cyn mis Mawrth 2026.

# Buddsoddiadau a Pherfformiad

Cyfanswm asedau Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yw tua £25 biliwn (fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2024). Mae buddsoddiadau goddefol yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd yn y Gronfa Gyfun i bob pwrpas, ond maent yn aros ym meddiant yr awdurdodau perthnasol ar ffurf polisïau yswiriant.

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn derbyn adroddiadau perfformiad pob chwarter, pob chwe mis a phob blwyddyn, ac mae'r Grŵp yn adolygu a herio perfformiad y Rheolwyr Buddsoddiadau ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â rheolwyr yn flynyddol, a defnyddir y rhain i herio rheolwyr a hwyluso ymgysylltu ag Aelodau Pwyllgorau yr Awdurdodau Cyfansoddol, a Rheolwyr Buddsoddiadau'r Bartneriaeth. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn gwneud eu dadansoddiadau lleol eu hunain o berfformiad buddsoddiadau'r Bartneriaeth, a bydd hynny'n golygu y bydd rheolwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Pensiynau.

Mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiad cyfnodol o holl is-gronfeydd PPC, a chyflwynir y canlyniadau i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r isod yn amlinellu Is-gronfeydd y Bartneriaeth ar hyn o bryd.

**Is-gronfeydd Ecwiti**

- ***Cronfa Twf Byd-eang*** — Rheolir gan Russell Investments ers Tachwedd 2024
- ***Cronfa Cyfleoedd Byd-eang*** — Rheolir gan Russell Investments
- ***Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol*** — Rheolir gan Russell Investments
- ***Cronfa Marchnadoedd Datblygol*** — Rheolir gan Russell Investments
- ***Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy*** — Rheolir gan Russell Investments

| Is-gronfa | Meincnod perfformiad | Cronfeydd Cyfranogol | Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol | Dyddiad Lansio | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|---|
| Twf Byd-eang | MSCI ACWI ND | Rhondda Cynon Taf, Dyfed, Gwynedd, Caerdydd a Phowys | Baillie Gifford, Pzena, Pinestone a Numeric | Chwefror 2019 | Tachwedd 2021 |
| Cyfleoedd Byd-eang | MSCI ACWI ND | Abertawe, Torfaen, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd | Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, Nissay, Intermede ac Oaktree | Chwefror 2019 | Cynlluniwyd ar gyfer 2025 |
| Cyfleoedd y DU | FTSE All Share | Caerdydd a Thorfaen | Baillie Gifford, Ninety-One, J O Hambro, Liontrust a Fidelity | Medi 2019 | Cynlluniwyd ar gyfer 2025 |
| Marchnadoedd Datblygol | MSCI Marchnadoedd Datblygol + 1.5% | Caerdydd, Gwynedd, Powys a Torfaen | Artisan, Bin Yuan, Barrow Hanley, Axiom, Numeric ac Oaktree | Hydref 2021 | Mawrth 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy | MSCI ACWI ND | Caerdyd, Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen | Sparinvest, Mirova, Neuberger Berman, a Wellington | Mehefin 2023 | Cynlluniwyd ar gyfer 2026 |

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

**Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt**
Rheolir gan Russell Investments

**Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang**
Rheolir gan Russell Investments

**Cronfa Credyd Aml-ased**
Rheolir gan Russell Investments

**Cronfa Credyd Byd-Eang**
Rheolir gan Russell Investments

**Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol**
Rheolir gan Waystone Management (UK) Limited

| Is-gronfa | Meincnod perfformiad | Cronfeydd Cyfranogol | Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol | Dyddiad Lansio | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|---|
| Credyd Byd-eang | Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged) | Caerdydd, Dyfed, Gwynedd, Powys a Thorfaen | Metlife, Fidelity, Coolabah a Robeco | Gorffennaf 2020 | Ebrill 2023 |
| Llywodraeth Byd-eang | FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged) | Caerdydd a Thorfaen | Bluebay a Colchester | Gorffennaf 2020 | Ebrill 2023 |
| Credyd aml-ased | 3 Month GBP SONIA plus 4% | Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe | ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya | Gorffennaf 2020 | Mawrth 2024 |
| Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt | 3 Month GBP SONIA plus 2% | Caerdydd, Powys ac Abertawe | Wellington, Aegon, Oaktree a DNCA | Medi 2020 | Mawrth 2024 |
| Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol | ICE BofA ML Eur-Stg plws 0.65% | Rhondda Cynon Taf | Fidelity | Gorffennaf 2020 | Mawrth 2024 |

## Marchnadoedd preifat

**Seilwaith – caeedig**
Rheolir gan GCM Grosvenor
Cronfeydd Cyfranogol: Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, RCT, Abertawe a Thorfaen

**Seilwaith - penagored**
Rheolir gan CBRE, IFM ac Octopus
Cronfeydd Cyfranogol: Caerdydd, Gwynedd, Powys, Abertawe a Thorfaen

**Credyd Preifat**
Rheolir gan Russell Investments
Cronfeydd Cyfranogol: Caerdydd, Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, Abertawe and Thorfaen

**Ecwiti Preifat**
Rheolir gan Schroders Capital
Cronfeydd Cyfranogol: Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe

# Manylion Cyswllt

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am rywbeth yn y cynllun busnes hwn neu rywbeth sy'n gysylltiedig ag ef, mae croeso ichi gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:


Drwy'r Post – Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Gâr

Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost – Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn - (01267) 224136


Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chynnydd drwy fynd i'r wefan a'r dudalen LinkedIn.

Dyma gyfeiriad y wefan:

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/